

Doniau

Darllen: 2 Samuel 10:12

Pa mor ddewr ydych chi? Fel Cristnogion, cawn ein galw'n feunyddiol i ddangos ein dewrder. Cawn ein galw i sefyll yn gadarn dros yr hyn a gredwn. Ac o dro i dro, cawn ein galw i rannu ein ffydd a'n hargyhoeddiad ag eraill. Dro arall, cawn ein galw i sefyll ochr yn ochr â rhywun mewn angen neu mewn trafferthion, yn union fel y Samariad Trugarog yn y ddameg. Dangosodd hwn dosturi a dewrder wrth estyn cymorth i'r truan oedd wedi ei guro ar y ffordd o Jerwsalem i Jericho. Y sialens eithaf i'n ffydd ydi caru ein cymydog, a chefnogi a chadarnhau'r rhai sydd mewn angen a'r rhai sy'n wynebu dioddefaint ac anghyfiawnder yn lleol neu'n fyd eang. Ond mae'n rhaid cofio nad ydi'r daith yn esmwyth. Efallai y bydd rhaid i ni wynebu gwarth neu boen, neu hyd yn oed genfigen neu wrthwynebiad. Roedd hyd yn oed y Samariad caredig yn wynebu perygl mawr trwy aros ar y ffordd i helpu ei gyd-ddyn. Mae'n siŵr nad oedd y lladron ymhell i ffwrdd. Llechu yn y cilfachau oedden nhw, mae'n debyg. Yn barod i ymosod!

Pa mor debygol ydych chi o sefyll yn gadarn neu wneud safiad sy'n golygu aberth a hunanymwadiad? Mae gennym enghreifftiau o bobl sy'n mynd i'r eithaf ac yn talu'r pris eithaf yn eu hymdrechion. Un esiampl loyw oedd Ninoy (neu Benigno) Aquino, a wrthwynebodd unbennaeth yr Arlywydd Marcos yn Ynysoedd y Pilipinas yn saithdegau'r ganrif ddiwethaf. Carcharwyd ef am flynyddoedd yn ei wlad ei hun, ond rywsut dihangodd o'r carchar a ffoi i'r Unol Daleithiau. Ac yno, fe argyhoeddodd y byd cyfan o ddaliadau a gweithredoedd yr awdurdodau yn y Pilipinas, gan wybod y byddai'n wynebu carchar am oes, neu hyd yn oed farwolaeth. Mewn cyfweliad ychydig oriau cyn iddo ymadael â'r Unol Daleithiau, dywedodd wrth un o'r newyddiadurwyr, 'Os byddaf farw â'r bwled, boed felly. Fedra i ddim aros yn niogelwch gwlad estron a gwybod beth sy'n digwydd i'm pobl.' Geiriau proffwydol oedd ei eiriau, oherwydd fe gafodd ei saethu wrth iddo gerdded i lawr y grisiau o'r awyren ym Manila, a bu

farw ar darmac y maes awyr. Ond nid dyna'r diwedd. Esgorodd y weithred honno ar newidiadau mawr yn ei wlad. Ymhen tair blynedd, daeth Chwyldro'r Bobl yn rym fu'n gyfrifol am ddisodli byddin Marcos. Bu olynnydd Marcos, sef Cory (neu Corazon) Aquino, gwraig Ninoy Aquino, yn gyfrifol am ledaenu rhyddid, gobaith a heddwch i bobl y Pilipinas.

Efallai na fydd rhaid i ni fynd i'r eithafion hyn, ond fe all stori Ninoy Aquino ein symbylu i weithredu'n erbyn y digwyddiadau yn ein cymunedau sydd, o dro i dro, yn ein gorfodi i sefyll yn gadarn ac arddangos cryn ddewrder. Ni allwn ond edmygu bywyd Iesu ei hun. Safodd yn gadarn yn wyneb negyddiaeth ddidostur y Phariseaid. Safodd yn gadarn dros anghyfiawnder, a chafodd ei arwain yn y diwedd i Galfaria; ond ymhen tridiau roedd wedi ei atgyfodi gan Dduw, sy'n dangos fod modd gorchfygu'r elfennau drygionus. Mae daioni yn drech na drygioni.

Myfyrdod pellach:

Ydych chi'n gallu meddwl am enghreifftiau o ddewrder yn eich cymdeithas chi?

Beth yw agwedd yr Eglwys at bobl sy'n barod i sefyll yn gadarn?